# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 20 HYDREF 2022

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Jina Gwyrfai, Louise Hughes, Iwan Huws, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Dewi Owen, Gwynfor Owen, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Rhys Tudur, Gruffydd Williams a Sasha Williams.

**Aelodau Cyfetholedig:** Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) a Roger Vaughan (UCAC).

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:** Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg) a Gwyn Tudur (Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:** Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Geraint Evans (Arweinydd Craidd – Cynradd – GwE) ac Ellen Williams (Arweinydd Craidd – Uwchradd – GwE) a Gwyn Tudur (Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:** Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) a Sian Myrddin Gwent (Ymgynghorydd Ffordd Gwynedd).

Diolchodd y Cadeirydd i ddau gyn-aelod o’r Pwyllgor, y Cynghorwyr Elwyn Jones a John Pughe Roberts, am eu cyfraniad, a chroesawodd ddau aelod newydd ar y Pwyllgor, sef y Cynghorwyr Louise Hughes a Gruffydd Williams. Diolchodd hefyd i Dilwyn Elis Hughes am ei wasanaeth fel aelod cyfetholedig ar y Pwyllgor, a chroesawodd Roger Vaughan, fel cynrychiolydd newydd UCAC.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elin Hywel, Ruth Roe (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd), Karen Vaughan Jones (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor) a’r Cynghorydd Menna Jones (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i’w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf, 2022 fel rhai cywir.

**5. ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB**

Croesawyd yr Aelod Cabinet a swyddogion yr Adran Addysg a GwE i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn ymateb i gais gan aelodau'r Pwyllgor am gyfle i edrych yn fanylach ar addysg cydberthynas a rhywioldeb, sydd yn elfen fandadol o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru o Fedi 2022. Eglurwyd bod yr elfen hon yn fandadol ym mhob un o ysgolion cynradd y sir ers Medi 2022, ac yn 6 o'r ysgolion uwchradd sydd wedi dewis cyflwyno'r cwricwlwm i Flwyddyn 7 ym Medi 2022.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun i'r adroddiad, gan nodi:-

- Ei bod yn ddyddiau cynnar ar daith y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ond bod yr adborth o'r ysgolion wedi bod yn dda a bod cyfathrebu cadarnhaol wedi bod yn digwydd rhwng ysgolion a rhieni.
- Bod ganddi bob ffydd yn y proffesiwn i gyflwyno'r addysg plwralistig a chynhwysol yma sy'n addas i ddatblygiad y plentyn, yn ogystal â'i oed.
- Ei bod yn hynod falch bod plant yn mynd i dderbyn addysg fydd yn eu cadw'n ddiogel ac yn hapus wrth iddyn nhw fynd drwy fywyd.
- Bod y Cod wedi derbyn dipyn o sylw, a'i bod hithau wedi derbyn llawer o ohebiaeth gan ddioddefwyr camdriniaeth rywiol sydd bellach yn oedolion, gan rieni i ddioddefwyr a gan bobl sy'n gweithio gyda dioddefwyr, gyda phawb ohonynt yn dweud eu bod mor falch o weld yr addysg yma'n cael ei ffurfioli.
- Ei bod yn mawr obeithio y bydd yr addysg yma'n mynd lawer o'r ffordd at sicrhau na fydd yr un plentyn yn cael ei fwlio a'i sarhau am fod yn wahanol i'r hyn sy'n cael ei ystyried fel norm, a dyna pam ei bod mor bwysig bod yr addysg yma'n cael ei weithredu'n effeithiol ar draws y sir.

Ategodd y Pennaeth Addysg sylwadau'r Aelod Cabinet gan nodi:-

- Bod penaethiaid ysgolion yn adrodd eu bod wedi derbyn ymateb cadarnhaol i'r Cod gan y rhan helaethaf o rieni a gofalwyr, a bod ganddo yntau bob ffydd bod arweinyddion a staff yr ysgolion yn ymdrin â'r mater yn ddoeth.
- Gan fod y maes yn cael ei gyflwyno'n blwralistig, mae yna wahanol safbwyntiau yn cael eu cyflwyno fel bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i ddod i farn annibynnol eu hunain yn seiliedig ar ffeithiau.
- Ei bod yn bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod mai datblygiad neu aeddfedrwydd neu berthnasedd datblygiadol sydd wrth wraidd y cwricwlwm. Gan hynny, byddai'r ysgolion yn cyflwyno'r addysg yn sgil eu hadnabyddiaeth hwy o'u dysgwyr o ran eu haeddfedrwydd a'u gallu i ddeall ac ymdrin â'r mater.

Yna cyfeiriodd y Pennaeth at baragraff 4(iii) o'r adroddiad oedd yn nodi, *"wrth ddatblygu Cwricwlwm i Gymru cefnogir ysgolion Gwynedd gan GwE",* gan nodi, o ran cywiriad, ac i wneud y sefyllfa'n fwy eglur, bod y 6 awdurdod ar draws y Gogledd wedi comisiynu unigolyn i gydweithio gyda'r mudiad Ysgolion Iach er mwyn cefnogi ysgolion yn y maes yma, a bod Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE yn y broses o gefnogi'r holl ysgolion i ddilyn y Cod.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Holwyd a fyddai'n bosib', maes o law, cael mewnbwn gan benaethiaid ac athrawon, ac o bosib' rhieni, drwy gyfrwng holiadur er mwyn gweld pa mor fodlon ydynt gyda'r trefniadau newydd. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Addysg y gellid dod ag adroddiad byr i'r aelodau yn cyfleu hynny yn dilyn cyfnod eithaf sylweddol o weithredu'r cwricwlwm newydd.
- Mewn ymateb i sylw na chredid bod y fframwaith newydd yn sylfaenol wahanol i'r ffordd roedd addysg bersonol yn cael ei dysgu yn y gorffennol, nododd y Pennaeth Addysg mai dyma'r union sylw oedd yn dod gan y proffesiwn. Yr hyn sy'n wahanol, mae'n debyg, yw bod y fframwaith yn cael ei gyflwyno'n drawsgwricwlaidd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad, a'i fod yn symudiad sydd yn cryfhau ymhellach gallu plant i ddeall beth yw perthynas iach, i ddeall y ffiniau ac i ddeall yr hyn sy'n dderbyniol iddyn nhw'n bersonol, fel bod hynny'n eu galluogi i wneud dewisiadau o ran perthynas a diogelu eu hunain. Nodwyd hefyd bod Swyddfa'r Comisiynydd Plant a'r NSPCC wedi croesawu'r symudiad yma a dyfodiad y cwricwlwm newydd.
- Nodwyd bod hwn yn fater oedd yn pegynu pobl. Ar y naill law, roedd yr Adran yn adrodd bod yr ymateb wedi bod yn gadarnhaol, ond roedd yna garfan o rieni oedd yn anfodlon. Deellid hefyd bod yna athrawon oedd yn hynod o nerfus ynglŷn â'r trefniadau newydd, ac yn gofyn am fwy o hyfforddiant, a holwyd a oedd yna fwriad i ganfod eu barn hwythau ar y mater. Pwysleisiwyd pwysigrwydd casglu tystiolaeth negyddol, yn ogystal â'r dystiolaeth gadarnhaol, er mwyn cadw cydbwysedd, ac awgrymwyd hefyd bod angen craffu gweithrediad y Cod yn yr ysgolion cyn, yn hytrach nag ar ôl, i'r flwyddyn academaidd ddod i ben. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Addysg fod yr Adran wedi bod yn canfod barn penaethiaid ar y mater, a bod y penaethiaid hynny yn cynrychioli ac yn lleisio barn staff eu hysgolion. Tra'n derbyn yn llwyr bod yna sylw wedi ei roi i'r maes yma, nodwyd bod ychydig ohono yn seiliedig ar anwybodaeth, ac mai'r adwaith roedd yr ysgolion yn gael oedd bod rhieni a staff drwyddi draw yn croesawu'r cwricwlwm newydd. Cadarnhawyd hefyd fod trefniadau ar y gweill i gynnal sesiynau hyfforddiant yn y maes yma fel mewn unrhyw faes cwricwlwm arall.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Addysg y gellid edrych ar sut fyddai'r Adran a'r Cyngor yn gallu lledaenu rhywfaint o'r dystiolaeth gadarnhaol i'r byd y tu allan.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Addysg nad oedd yna unrhyw bryderon wedi dod i'r amlwg ers cychwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd, ac nad oedd yr hyn sydd wedi ymddangos ar y cyfryngau cymdeithasol yn adlewyrchu'r farn gyffredinol mewn unrhyw ffordd.

Mynegodd aelod ei phryder ynglŷn â'r Cod, gan nodi:-

- Mai'r rhieni yw prif warcheidwaid cyfreithiol eu plant, a bod yr hawl hwnnw yn cael ei gymylu yma.
- Bod y gyfraith yn dweud na all unrhyw un dan 13 oed fyth roi cydsyniad cyfreithiol i unrhyw fath o weithgaredd rhywiol.
- Oes gan rieni'r hawl i dynnu eu plant o'r gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?
- A yw'n briodol trafod rhywioldeb gyda phlant ifanc iawn?
- Pam newid o addysg rhyw i addysg rhywioldeb?
- Mai awduron y ddogfen oedd yr Athro E.J.Renold o Brifysgol Caerdydd a'i chyd-weithiwr, Ester McGeeney, a bod datblygiad y ddogfen yn llwyr seiliedig ar waith ymchwil y ddwy ohonynt yn unig, gan ddefnyddio llai na 10 o'u herthyglau a'u llyfrau eu hunain i gyfiawnhau'r ddogfen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Oedd hyn, felly, yn dystiolaeth foesegol?
- Bod yr adroddiad yn nodi bod yna dystiolaeth gadarn – ond ble mae'r dystiolaeth honno?
- Na all y pwyllgor graffu rhywbeth sydd heb ei gyflwyno eto, ac mae gennym yr hawl i gwestiynu Llywodraeth Cymru ar hyn.
- Bod pob rhiant pob plentyn yn ysgolion Gwynedd yn randdeiliad, a bod yr awdurdod yn bod yn drahaus yn diystyru gwir bryderon rhieni fel camwybodaeth ar y sail nad ydynt yn cytuno gyda'r hyn mae'r Llywodraeth yn ddweud yw'r gwirionedd.
- Bod gan bawb ohonom yr hawl i ddiogelu ein plant rhag deunydd rhywiol amhriodol, a'r rhieni sy'n nabod eu plant orau.
- Ei bod yn anodd deall pam fod pobl mor barod i dderbyn hyn.
- Na allwn anwybyddu'r protestiadau sy'n dod o'r Alban a Lloegr.

- Nid yw ein hathrawon wedi'u cymhwyso i ddysgu addysg rhywioldeb.
- Bod hyn yn herio pob diwylliant teuluol Gorllewinol sy'n gynhenid i ni, ac mae dyletswydd arnom i graffu hyn yn drwyadl ac yn helaeth cyn y bydd hi'n rhy hwyr.
- Na ellir diystyru'r gwrthwynebwyr fel eithafwyr – rhieni ydynt sy'n bryderus iawn ynglŷn â lles eu plant.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Pennaeth Addysg:-

- Nad oedd y sylwadau yn gynrychioliadol o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgolion yn ôl ei ddehongliad ef o'r Cod.
- Ei bod yn gywir i ddweud bod Senedd Cymru wedi deddfu ar gael gwared â'r hawl i rieni a gofalwyr eithrio eu plant o'r cwricwlwm, ac roedd Gwynedd, fel awdurdod, yn ddarostyngedig i god mandadol neu gwricwlwm statudol fel mae'r Llywodraeth yn ei gyflwyno.
- Bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori yn eang cyn cyflwyno'r cwricwlwm i'n hysgolion, a'n rôl ni fel awdurdod a gwasanaeth cefnogi ysgolion yw sicrhau bod ein hysgolion yn barod i'w weithredu.

Holodd yr aelod a oedd gan blant y gallu i wneud penderfyniadau moesol ynglŷn â'r ffordd maent yn ymddwyn yn rhywiol, ac a fyddai'r Pennaeth yn cytuno fod hyn yn llwyr danseilio diogelu plant.  Nododd hefyd ei bod yn hanfodol cyflwyno rheoliadau oed-berthnasol er mwyn diogelu plant rhag y posibilrwydd o gael eu cam-drin yn rhywiol.

Mewn ymgais i leddfu'r pryderon, rhoddodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE esboniad manwl o'r gefnogaeth a roddir i ysgolion gan osod y rhan yma o'r cwricwlwm yn ei gyd-destun ehangach.

Holodd y Cadeirydd pa adnoddau oedd ar gael i ysgolion.  Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE fod y Grŵp Trawsranbarthol sy'n edrych ar hyn wedi pwysleisio bod angen gwneud yn siŵr bod yr adnoddau yn addas.  Nid oeddent yn chwilio am y pegynau eithafol yn y drafodaeth, eithr yn tynnu at ei gilydd restr o adnoddau sydd, yn eu barn broffesiynol hwy, yn addas ar gyfer ein disgyblion ar draws y Gogledd.  Roedd y rhestr yna wedyn yn gallu cael ei rannu ar lefel ysgol, a mater i'r ysgol wedyn oedd penderfynu a oedd yr adnoddau hynny'n rhai sy'n berthnasol i'w cyd-destun hwy.  Nododd ymhellach iddo ofyn i'r Grŵp ystyried a oedden nhw'n gweld bylchau mewn adnoddau mewn ambell faes, ac os felly, sut orau i ddiwallu hynny.  Nododd hefyd y byddai gwybodaeth drylwyr am yr adnoddau ar restr y Grŵp maes o law, ac y gellid trefnu bod yr wybodaeth honno ar gael i aelodau'r pwyllgor craffu hefyd.

Nododd aelod ei fod yntau'n hollol anhapus gyda'r cyfeiriad mae'r Cyngor yn gyrru'r ysgolion ymlaen gyda hyn, gan nodi:-

- Ai'r cyrsiau hyfforddiant a ariannwyd drwy Stonewall oedd yr unig hyfforddiant a dderbyniwyd yn y maes yma?
- Mai arbenigedd y person sy'n bennaf gyfrifol am lunio'r Cod, sef yr Athro E.J.Renold, yw '*Posthumanism'* a '*Queer Theory'*, a'i bod yn ddychrynllyd meddwl ein bod yn ystyried cael gwared ag ideoleg Gristnogol, sydd wedi bod ynghlwm â'r ardaloedd yma ers bron i 2000 o flynyddoedd, a chyflwyno'r ideoleg di-sail yma yn ei le, sy'n cael ei wthio ymlaen drwy Stonewall a chan Lywodraeth Cymru.
- Bod yr ideoleg yma'n beryg' bywyd ar gyfer ein plant, a phan fydd plentyn bach yn sôn wrth athro ei fod yn cael ei gamdrin, ni fydd defnyddio'r math o derminoleg sy'n cael ei gyflwyno fel rhan o'r addysg yma yn amlygu dim byd.  Hyfforddiant sydd ei angen fel bod yr athrawon yn gallu pigo i fyny ar hyn, yn hytrach na gwthio agenda traws-rywioldeb a niwtraliaeth rhywedd, a thrwy hynny weddnewid ein cymdeithas drwy'r ysgolion.
- Yr hyn fyddwn yn ei chwydu allan o'r ysgolion yn y pen draw fydd pobl nad oes arnyn nhw unrhyw beth i'w rhieni, nac i'r wladwriaeth, a dyna'r ideoleg sy'n cael ei wthio ymlaen yma.

- Dywedir mai datblygiad neu aeddfedrwydd neu berthnasedd datblygiadol sydd wrth wraidd y cwricwlwm, ond o gam-ddehongli hynny, mae yna oblygiadau erchyll all effeithio ar blant am weddill eu hoes, ac nid oes rhaid ond edrych ar yr hyn ddigwyddodd yn Tavistock i weld effaith hynny, gyda miloedd o blant wedi'u bwtchera yn enw'r union ideoleg sy'n cael ei yrru ymlaen yma gan ein swyddogion a rhai o'r aelodau.
- Bod Llywodraeth Cymru yn tanseilio Erthygl 9 o'r Ddeddf Hawliau Dynol drwy ddileu hawl rhieni i dynnu eu plant o addysg rhyw os yw'n mynd i effeithio ar eu crefydd neu gredoau.
- Mai 16 yw'r oed cydsynio, ond nid yn ôl yr hyn sy'n cael ei wthio ar yr ysgolion, ac mae'r ffynonellau y disgwylir i athrawon eu defnyddio am arwain at rywioli plant bach.

Nododd y Swyddog Monitro, ar bwynt o briodoldeb, bod honiadau eithaf difrifol wedi'u gwneud ynglŷn â natur y cwricwlwm, ynghyd â lled-awgrym bod yna bethau eithaf difrifol ac amhriodol yn deillio o weithredu'r cwricwlwm, ac atgoffodd yr aelodau o'u cyfrifoldeb o dan y Cod Ymddygiad i beidio dwyn anfri di-sail ar yr Awdurdod a'r ysgolion. Mewn ymateb, nododd yr aelod fod yr holl dystiolaeth ar gael ynglŷn â natur a chefndir y gwaith ymchwil y tu ôl i'r cwricwlwm addysg, ac na chafodd yr aelodau gyfle i drafod y sail tystiolaeth gan i'r Cadeirydd ddweud wrtho nad oedd yn briodol i siarad am hynny yn y cyfarfod hwn. Nododd ymhellach nad oedd wedi cyhuddo unrhyw brifathro na phrifathrawes, ac mai'r cwbl ddywedodd oedd eu bod angen yr addysg a'r hyfforddiant angenrheidiol i ddelio gyda'r materion cymhleth tu hwnt sy'n mynd i ddod gerbron.

Atgoffodd y Swyddog Monitro yr aelodau unwaith yn rhagor o'u cyfrifoldeb o dan y Cod. Mewn ymateb, nododd yr aelod, yn dilyn cyflwyno'r Cod yn yr Alban, y gwelwyd cynnydd o 1,600% yn yr achosion o blant yn mynd am driniaeth yn ymwneud â thraws rhywioldeb, a'i fod felly'n deillio'n uniongyrchol o'r system addysg.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelod, nododd y Pennaeth Addysg:-

- Y sicrheid bod yr hyfforddiant yn briodol ar gyfer y staff, fel gydag unrhyw faes arall.
- Mai rhan o gwricwlwm i Gymru yw hyn, nid rhan o gwricwlwm yr Alban, na Lloegr.
- Bod y cwricwlwm yn sefyll ar ei ben ei hun ar sail ymchwil yng Nghymru, ac wedi derbyn sêl bendith sawl mudiad.
- Mai'r hyn sydd wrth wraidd y cwricwlwm yw bod plant yn cael derbyn gwybodaeth ac yn gwneud eu dewisiadau eu hunain, sy'n seiliedig ar farnau plwralistig.
- Bod yr ysgolion yn gwybod ei bod yn briodol iddynt addysgu a thrafod gyda phlant yn unol â'u lefel o aeddfedrwydd.

Nododd aelod:-

- Ei fod yn llwyr gytuno â sylwadau'r Aelod Cabinet mewn cylchgrawn diweddar, oedd yn nodi *"Oni wnawn fel ysgolion roi addysg rhyw addas i'n plant, bydd y diwydiant pornograffi yn camu i mewn i'r bwlch ac ni fydd yr hyn fyddant yn ddysgu drwy hynny yn addas i'w hoed, nac yn cael ei gyflwyno yng nghyd-destun perthynas iach hafal a hapus. Mae addysg rhyw briodol yn gam pwysig tuag at greu dinasyddion empathig, parchus, teg, gwydn a chynhwysol a charedig."*
- Bod y rhanddeiliaid allweddol o ran y mater hwn, sef Llywodraeth Cymru, Ysgolion Iach, yr NSPCC a Swyddfa'r Comisiynydd Plant, i gyd yn gefnogol i'r Cod. Roedd y mwyafrif llethol o athrawon yn gefnogol hefyd, a chymerid bod y cynghorau disgyblion yn yr ysgolion hefyd wedi lleisio barn, a'u bod hwythau'n bendant o blaid y Cod.
- Y cydnabyddid bod y pwnc yn un dyrus, sy'n pegynu pobl, a bod gofyn tawelu ofnau rhieni, yn lle bod pobl yn dibynnu ar sylwadau ysgubol ar y cyfryngau cymdeithasol. Gan hynny, awgrymwyd y dylai'r Adran Addysg anfon llythyr cyffredinol, ar ran y prifathrawon, at bob rhiant mewn ymgais i dawelu'r ofnau a'r nerfuswydd real sydd gan nifer o rieni. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Addysg fod hynny'n sicr yn rhywbeth y gellid ei drafod gyda'r prifathrawon. Ategodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y sylw, gan nodi bod y Grŵp

Trawsranbarthol wedi llunio taflen i'r perwyl hynny i'w haddasu yn lleol, a bod yr wybodaeth gan yr Adran a GwE i'w rhannu.

Nododd aelod:-

- Hyd yn ddiweddar, bod yr holl sefydliadau amddiffyn plant, gan gynnwys yr NSPCC a'r heddlu, yn derbyn nad oedd yn addas i oedolion dieithr gael sgyrsiau gyda phlant ynglŷn â rhywioldeb, ond roedd yr ymchwil yma wedi newid eu barn.
- A oedd y Pennaeth Addysg yn credu ei bod yn briodol siarad gyda phlant ifanc am ryw a rhywioldeb, o gofio bod awdur y ddogfen yn herio'r cysyniad o ddiniweidrwydd plentyndod?
- Bod hyn yn cael ei gydnabod yn gyson fel techneg meithrin perthynas amhriodol sy'n gosod plant mewn perygl o gael eu ecsbloetio gan oedolion.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelod ymdawelu, a nododd y Swyddog Monitro nad oedd yn siŵr i ble'r roedd y pwynt yma'n mynd o ran cyd-destun, gan ei fod yn cyfeirio at dechnegau cam-drin plant mewn cyd-destun troseddol.

Er eglurder, nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE fod angen ysgaru dau beth yma, sef y cwricwlwm, sy'n cynnig addysg oed berthnasol i blant, a chamdriniaeth, sydd â llwybr hollol glir a phenodol ar ei gyfer.

Nododd aelod:-

- Na chytunai â'r sylw yn yr adroddiad ei bod yn gynamserol i graffu darpariaeth ein hysgolion yn y maes yma, oherwydd, os ydi'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno, yna mae yna gynlluniau gwaith ar gael, ynghyd ag adnoddau a hyfforddiant athrawon, ac efallai y dylid nodi yn y llythyr cyffredinol i rieni y bydd yna grŵp tasg yn craffu'r mater.
- Pam gofyn am farn y cyfarfod hwn, pan nad ydi'r aelodau yn gallu gweld yr adnoddau sy'n cael eu cyflwyno yn barod?

Awgrymodd y Cadeirydd y gellid gwneud cais i sefydlu grŵp tasg i edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn ein hysgolion go iawn.

Gofynnwyd i gynrychiolydd UCAC am ei farn ynghylch amddiffyniad i athrawon petai rhai rhieni yn cwyno bod yr addysg yn amhriodol i'w plant. Mewn ymateb, nodwyd ei bod yn bwysig bod cynnwys unrhyw wers yn cael ei drafod yn ofalus, ac y disgwylid bod y drafodaeth honno'n digwydd rhwng athro a phennaeth ar sail eu hadnybyddiaeth hwy o'r plant, ac felly y gobeithid na fyddai'r sefyllfa yna'n codi.

Nododd aelod y byddai'n fwy cyfforddus yn gweld addysg rhyw yn cael ei ddysgu mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol ar y naill law, ac mewn gwersi bywydeg ar y llaw arall.

Mewn ymateb i gais gan aelod am sylwadau ynglŷn â dysgu'r maes yn draws-gwricwlaidd, nododd y Pennaeth Addysg mai hanfod y cwricwlwm oedd bod y cynnwys yn cael ei ddysgu ar draws y meysydd dysgu a phrofiad, ond mewn realiti, byddai arweinwyr ein hysgolion a'r athrawon yn gwybod ym mha faes y byddai fwyaf priodol i gyflwyno'r math yma o gwricwlwm. Er hynny, gallai'r elfen 'perthnasau', er enghraifft, godi mewn gwersi Hanes er mwyn esbonio sut mae agweddau wedi newid dros y degawdau a'r canrifoedd diwethaf. Ychwanegodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, o ran darparu, bod modd dod â phobl allanol i mewn i gefnogi themâu penodol a bod y modd o ddiwallu gofynion y Cod yn dibynnu ar argaeledd yr arbenigedd o fewn yr ysgol, a hefyd y model dysgu mae'r ysgol yn dymuno ei fabwysiadu ar gyfer y cwricwlwm lleol. Gan hynny, ni fyddai'n un model o gyflwyno, ond yn fodel fyddai'n addas i bobl ysgol fel mae nhw'n gweld orau.

Nododd yr aelod ymhellach:-

- Mai tuedd elfennau newydd, o'u cyflwyno mewn ffordd newydd, yw bod ganddynt y gallu i gymryd drosodd, ac na ddymunid gweld y maes hwn yn codi ym mhob gwers.
- Er ei bod yn deg cyfeirio at ideolegau, dylai hanfod yr addysg fod wedi'i wreiddio yn y ffeithiau biolegol diymwad sylfaenol.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Addysg:-

- Mai perthynas iach sy'n cael blaenoriaeth.
- Mai'r hyn sydd wrth wraidd y cwricwlwm yw'r elfen blwralistig, h.y. nad yw un farn/gogwydd yn tra-arglwyddiaethu ar un arall, a bod gwahanol safbwyntiau yn cael eu cyflwyno fel bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i ddod i farn annibynnol eu hunain yn seiliedig ar ffeithiau.

Awgrymodd yr aelod y gellid esbonio hynny yn glir, gydag enghreifftiau, yn y llythyr cyffredinol i rieni.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod ynglŷn ag ymateb y cyrff llywodraethol, nododd y Pennaeth Addysg nad oedd yna awdit wedi bod yn gyffredinol ar y pwynt yma gyda'r cyrff llywodraethol, ond ei bod yn glir o'r trafodaethau gyda'r penaethiaid bod y trafodaethau hynny yn mynd rhagddynt. Hefyd, mewn achosion lle roedd ysgolion wedi derbyn cais, neu wedi penderfynu ar y cyd ag aelodau'r cyrff llywodraethol, i esbonio'r cwricwlwm newydd yn ei gyfanrwydd i rieni, roedd hynny wedi cael ei groesawu.

Holodd aelod sut y gallwn amddiffyn ein plant os yw'r cwricwlwm yn cael ei newid yn sylweddol gan y Gweinidog. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE:-

- Bod gennym i gyd, fel aelodau, llywodraethwyr a swyddogion, gyfrifoldeb dros warchod hynny, a lle bo pryder gwirioneddol, bod yna fforymau i gael y trafodaethau hynny, waeth beth yw hawliau'r Gweinidog.
- Er bod fframwaith y cwricwlwm yn cael ei osod yn ganolog gan y Llywodraeth, y gwahaniaeth rhwng cwricwlwm cenedlaethol a'r cwricwlwm yma oedd bod y cwricwlwm yma'n cael ei gyflwyno'n lleol, ac felly roedd cyfrifoldeb ar arweinyddiaeth yr ysgol a'r llywodraethwyr i wneud yn siŵr bod y cynnwys yn oed-bwrpasol ac yn aeddfed-bwrpasol ar gyfer y disgyblion.

Wedi i'r Cadeirydd ddatgan ei bod am gloi'r drafodaeth, nododd y Pennaeth Addysg:-

- Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod hwn, y dymunai gael diffiniad o beth yn union y dymunai'r aelodau ei gael i'w graffu eto, a bod hynny'n briodol wrth i ni edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgolion.
- Bod yr ysgolion a'r cyrff llywodraethol yn edrych ar sut i gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn unol â'r amodau a'r amgylchiadau sy'n lleol iddyn nhw, ac roedd yn hollbwysig hefyd i'r aelodau fod yn ystyried hynny.
- Gan fod yna wahaniaethau o ran sut mae'r gwaith yn cael ei wneud o un lle i'r llall, o safbwynt aeddfedrwydd cyd-destun plant, ayb, roedd yn bwysig cael y diffiniad er mwyn gallu paratoi'n briodol ar gyfer y craffwyr.

Nododd aelod fod y pwyllgor wedi trafod y mater hwn yn ddall, a chan fod pryder wedi'i fynegi ynghylch adnoddau, awgrymwyd y dylai'r aelodau dderbyn detholiad helaeth iawn o adnoddau y tro nesaf y bydd y mater yn cael ei graffu, gan y byddai hynny'n siŵr o dawelu meddyliau.

Holodd aelod a oedd yna gynlluniau i ddefnyddio cynlluniau dysgu unigol ar gyfer yr addysg perthnasedd a rhywioldeb. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Addysg:-

- Petai yna blant yn agored i'r gwasanaeth addysg arbennig, a bod angen teilwra'r anghenion ar eu cyfer, ei fod yn hyderus y byddai'r ysgolion yn gweithredu yn unol â hynny.
- Mai beth oedd wrth wraidd hyn oedd adnabyddiaeth gref yn ein hysgolion o lle mae'r plant arni o ran eu gallu a'u haeddfedrwydd i ymdrin â materion fel hyn yn aeddfed, yn sensitif ac yn gall, a'i fod yn hyderus bod y staff yn adnabod eu plant yn ddigon da i gael hyn yn iawn.

Nododd yr aelod ei bod yn bwysig cynnwys hynny hefyd yn y llythyr cyffredinol i rieni.

Yn ei sylwadau cloi, nododd yr Aelod Cabinet:-

- Y gofynnwyd pam fod angen crybwyll rhywioldeb wrth blant ifanc, ac y dymunai atgoffa pobl bod yna blant yng Ngwynedd hefo dwy fam, dau dad, rhiant traws-rywiol, neu frodyr / chwiorydd sy'n hoyw, neu'n draws-rhywiol.
- Bod gan bob plentyn yr hawl i gael adlewyrchiad ohonynt eu hunain a'u teulu mewn addysg a deunyddiau addysgol, fel eu bod yn tyfu i fyny yn gwybod eu bod hwy eu hunain a'u teulu yn hollol normal.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar gynnig i dderbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau, ac ail-graffu'r mater pan yn amserol.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig:-

| | | |
|---|---|---|
| O blaid | 15 | Y Cynghorwyr Iwan Huws, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dewi Owen, Gwynfor Owen, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, a Sasha Williams.<br>Aelodau Cyfetholedig: Colette Owen a Manon Williams |
| Yn erbyn | 3 | Y Cynghorwyr Jina Gwyrfai, Louise Hughes a Gruffydd Williams. |
| Atal | 1 | Y Cynghorydd Rhys Tudur |

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau, ac ail-graffu'r mater pan yn amserol.**

## 6. ADRODDIAD CYNNYDD AR Y DAITH DDIWYGIO YN YSGOLION GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd yr Aelod Cabinet Addysg ar gais y Pwyllgor hwn ar baratoadau ysgolion Gwynedd i waith Cwricwlwm i Gymru.

Croesawyd cynrychiolwyr GwE i'r cyfarfod.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Ei bod yn galonogol gweld bod holl ysgolion Gwynedd yn sicrhau bod hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru wedi'i blethu'n glir yn nyluniad y cwricwlwm.
- Ei bod yn hanfodol nad ydym yn colli golwg ar bwysigrwydd y disgyblaethau academaidd traddodiadol, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau tegwch mewn cymdeithas.
- Ei bod yn hanfodol sicrhau cysondeb safon o ysgol i ysgol er mwyn sicrhau tegwch, nid yn unig rhwng cymunedau, ond ar lefel y disgybl unigol hefyd.
- Bod un dudalen, yn arbennig, o'r adroddiad yn frith o gyfeiriadau at '*ychydig'*, '*llawer'* neu '*rai'* ysgolion', sy'n gwbl ddi-ystyr heb y tabl, ac y dylid cynnwys y canrannau perthnasol ym mhob achos.
- Y croesawir y cwricwlwm newydd, ond bod prinder staff, yn arbennig cymorthyddion, yn broblem enfawr.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- O ran y trefniadau hyfforddi, bod rhaglen yn cael ei chreu, yn drawsranbarthol ac ar draws Cymru, er mwyn gosod y fframwaith o ran dyluniad y cwricwlwm, gan ystyried beth yw'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r math o ymddygiad lleol mae ysgol neu gymuned leol yn dyheu tuag ati o gwmpas y 4 diben. Roedd GwE wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Athro Graham Donaldson ac wedi creu rhwydwaith rhanbarthol a rhwydweithiau lleol a phenodol yng Ngwynedd yn edrych ar feysydd dysgu a phrofiad yn unigol, ac wedyn yn oed berthnasol i'r meysydd dysgu a phrofiad. Yna, roedd cyfres o glystyrau wedi'u creu a chyfres o gynghreiriau, ac roedd yr hyfforddiant yn mynd i lawr i lefel y clystyrau. Roedd yn bwysig nodi hefyd, wrth i'r fwydlen fynd yn ei blaen, bod ysgolion yn dysgu oddi wrth y naill a'r llall ac yn rhannu profiadau.
- Mai asesu a chynnydd oedd yr heriau mwyaf i'r proffesiwn. Roedd yna ddarlun llawer mwy holistig o'r plentyn erbyn hyn, yn ogystal â'r ochr academaidd. Crewyd modelau a systemau i rannu hefo'r ysgolion, yn enwedig o ran yr asesu ffurfiannol, ac roedd gwaith ar droed hefyd o ran y pontio cynradd/uwchradd yng nghyd-destun cwricwlwm lleol. Nodwyd ymhellach mai un o'n harfau pwysicaf yn sgil datblygiad y cwricwlwm newydd fyddai'r ffocws amlwg ar gwricwlwm lleol/ardal, a chredid bod hynny'n fodd o gryfhau'r pontio mewn modd sy'n berthnasol i gwricwlwm sy'n wirioneddol adlewyrchu gofynion lleol. Hyderid hefyd y gallai fod o gymorth i gael gwared â'r canfyddiad gan rai bod yna gyfnod addysg yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 6, a chyfnod arall yn cychwyn ym mlwyddyn 7.
- O safbwynt hyrwyddo'r diwylliant Cymreig ar draws yr ysgolion, bod y Cwricwlwm i Gymru yn gwricwlwm Cymreig, ac yn gwricwlwm sy'n gynyddol yn arddel a datblygu'r iaith Gymraeg. Gan hynny, roedd yr elfennau hynny yn yr arlwy hyfforddiant mewn gwahanol ffyrdd, a nodwyd y byddai GwE yn hapus i adrodd yn ôl ar hynny i'r pwyllgor.
- O ran bwriad y rhan fwyaf o ysgolion i asesu a thracio lles plant yn ogystal â'u hagwedd tuag at eu gwaith, a'r ffaith nad oes un dull/adnodd ar gael ar gyfer hynny, a hefyd yr angen i ddatblygu ymhellach y flaenoriaeth llesiant ysgol gyfan, gan gynnwys datblygu a gwerthuso'r maes dysgu a phrofiad iechyd a lles, nodwyd ein bod mewn cyfnod digynsail am sawl rheswm. Gwelwyd newidiadau sylweddol yn y maes addysg, ac ni chredid bod neb yn llawn sylweddoli effaith y 2 flynedd ddiwethaf, nid yn unig ar y plant a'r bobl ifanc, ond hefyd ar yr oedolion sy'n dysgu yn yr ysgolion. Roedd llais y disgybl yn bwysig yn ganol hyn, ond roedd gan y proffesiwn a chefnogwyr y proffesiwn le i aeddfedu a chywain y wybodaeth ynglŷn â beth yn union ydyw lles, a gallai gwneud pethau'n rhy generig olygu bod posib' methu canolbwynt a chalon lles mewn ysgol. Nodwyd bod agwedd plant a phobl ifanc at addysg ac ysgolion, yn enwedig yn yr ardaloedd mwy difreintiedig, wedi mynd yn fwy heriol ac anghenus ei natur yn y 2 flynedd ddiwethaf. Roedd GwE yn gweithio ac yn derbyn cyngor gan arweinwyr prifysgolion ar sefydlu beth yn union yw'r anghenion yn lleol, a sut i ddiwallu'r anghenion hynny. Nid oedd yr atebion gennym ar hyn o bryd, ond credid y byddai'n rhaid edrych yn ôl ar y cyfnod hwn ymhen amser er mwyn medru gweld beth yn union fu'r effaith ar blant a phobl ifanc.
- Er mai un cyfeiriad byr sydd yn yr adroddiad at rifedd a llythrennedd, bod y sgiliau sylfaenol – llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn ogystal â lles plant a phobl ifanc, yn greiddiol i'r cwricwlwm o'r oedran cynradd i 16 oed. Nodwyd y byddai GwE yn hapus iawn i adrodd yn llawn i'r pwyllgor ar y ddarpariaeth a'r gefnogaeth mae ysgolion yn gael yn y meysydd yma.
- Nad oedd y cymorthyddion dosbarth wedi'u cynnwys yn y meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach, ond pwysleisiwyd eu bod yn bobl allweddol yn ein hysgolion sy'n cefnogi'r addysgu rheng-flaen yn y dosbarthiadau. Roedd rhaid iddynt hefyd ddeall fframwaith, cynnwys a phwrpas y cwricwlwm, a bod yn rhan o unrhyw ddatblygiad proffesiynol yn eu hysgol leol a'u clwstwr lleol.
- O ran tegwch i ddisgyblion unigol gyda golwg ar gyrhaeddiad academaidd, yn arbennig y rhai o gefndiroedd llai breintiedig sy'n llai tebygol o gael gwersi preifat, ayb, nodwyd y bu ymgais ers blynyddoedd bellach i symud oddi wrth gategoreiddio a labelu ysgolion. Arferai ysgolion gael eu mesur yn amrwd iawn yn ôl canran y disgyblion oedd yn ennill graddau A* i C yn eu TGAU, ond nid oedd canran helaeth o'r plant yn cyrraedd y trothwy yma. Awgrymwyd bod rhai ysgolion wedi culhau eu cwricwlwm yn llawer rhy gynnar, er mwyn

cyrraedd y trothwy, a hynny ar draul profiad ehangach i'r ystod o blant, a chredid bod cadw ehangder y cwricwlwm yn mynd i fod yn her yn y sector uwchradd. Gan nad oedd yn glir eto sut fyddai'r cymwysterau yn edrych erbyn 2025, pan fyddai'r cwricwlwm newydd yn cyrraedd Blwyddyn 10, roedd hynny'n llesteirio ychydig ar gynlluniau'r ysgolion, ond gellid bod yn eithaf clir y byddai'r brand TGAU a'r pynciau disgyblaethol yn aros.

- O safbwynt cysondeb safonau rhwng ysgolion, nodwyd yr anogid cydweithio rhwng yr ysgolion, gan bod hynny'n fodd o dorri ar y gystadleuaeth, yn ogystal â rhannu baich ac arbenigedd. Yn y Fframwaith Atebolrwydd newydd, roedd cyfrifoldeb ar bob ysgol i adrodd i'w llywodraethwyr a rhieni yn flynyddol ar effeithiolrwydd y cwricwlwm, a pha mor dda ydyw ar gyfer profiadau disgyblion unigol. Fel rhan o'r broses honno, byddai yna gymedroli gan gymheiriaid ar y math o adroddiad fel y rhagwelir sydd yn y ddogfen arfaethedig a'r canllaw fydd mewn lle. Nodwyd bod yr Athro Donaldson wedi datgan mewn cynhadledd ddiweddar bod plentyn sy'n hapus ac yn dysgu yn linyn mesur da o lwyddiant y cwricwlwm, ond mae'n debyg bod angen ystyried wedyn beth sy'n cyfrannu at yr hapusrwydd a'r dysgu yma, sut i ddal y ddeubeth yna a sut mae'r ysgolion yn cyfrannu at beth bynnag yw'r nodau corfforaethol sy'n llawer iawn mwy holistig eu natur. Roedd hon, mae'n debyg, yn drafodaeth i'r Aelod Cabinet Addysg a'r Pennaeth Addysg ei chael, o ran beth yw cyfundrefn addysg lwyddiannus yng Ngwynedd.
- O ran agweddau lleol y cwricwlwm, eglurwyd nad oedd yna lwyr hyblygrwydd yn hyn o beth, a bod yna elfennau mandadol clir yn y cwricwlwm. Awgrymwyd hefyd y gallai fod yn fuddiol cynnal gweithdy gydag ambell ysgol er mwyn dangos sut mae nhw'n rhoi'r cwricwlwm arfaethedig ar waith, a thrwy hynny leddfu rhai o'r pryderon bod ambell ysgol yn diystyru'r pethau craidd ar draul popeth arall.
- O ran cydraddoldeb i bawb a mynediad at yr un profiadau, nodwyd bod y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno mewn cyfnod di-gynsail o ran yr argyfwng costau byw presennol, ayb, ac nad oedd tlodi a chydraddoldeb byth mor syml ag edrych ar dlodi ariannol. Roedd yna hefyd dlodi gwledig a thlodi o ran y profiadau mae plant a phobl ifanc yn gael, a nodwyd bod yr Aelod Cabinet Addysg yn awyddus i arwain ar waith gyda'r ysgolion o ran diffinio addysg a lles a phrofiadau cytbwys, fel nad yw plant a phobl ifanc a theuluoedd yn cael eu heithrio ar sail tlodi neu unrhyw agwedd gymdeithasol arall. Ategodd yr Aelod Cabinet y sylw hwn drwy nodi y cynhaliwyd trafodaethau helaeth o fewn yr Adran ynglŷn â'r gwir gost o yrru plant i'r ysgol, nid yn unig y gost ariannol, ond hefyd y gost o ran llesiant, yn emosiynol a seicolegol. Eglurodd na fyddai plant yn gadael yr ysgol gyda'r deilliannau a ddymunir heb iddynt fod yn hapus yn eu crwyn eu hunain a chael bod wedi mynd i'r ysgol ar yr un telerau â phawb arall.
- Ei bod yn destun rhywfaint o bryder nad yw'r elfen galwedigaethol yn rhan lawn o ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar gymwysterau newydd. Roedd yr elfen honno'n gorwedd yn ormodol y tu allan i Gymru gan gyrff allanol, a chredid y byddai angen dwyn pwysau gwleidyddol os am weld bwydlen sy'n rhoi cymwysterau Cymreig i bawb. Fel arall, roedd perygl o greu system dwy haen unwaith eto, a dylai'r elfen yrfaol fod yn rhan o'r profiad llawn fel bod y person ifanc yn gallu cael llwybr di-dor i fywyd gwaith neu addysg bellach.
- Bod yna ddwy ochr i'r ddadl o ran cyfuno llenyddiaeth ac iaith yn un pwnc yn y Gymraeg a'r Saesneg. Wrth ddadansoddi canlyniadau TGAU, gellid dadlau mewn ambell i fan bod yna or-ddysgu llenyddiaeth, a dim digon o ddysgu'r sgiliau ieithyddol penodol. Ochr arall y ddadl oedd bod llen yn cyfoethogi'r unigolyn, nid yn unig o ran sgiliau iaith, ond fel person hefyd. Roedd cael y cydbwysedd yna mewn manyleb yn mynd i fod yn ddiddorol, a chredid y dylai hyn fod yn rhan o ymgynghoriad Cymwysterau Cymru. Awgrymwyd bod yna gam-ganfyddiad wedi bod ynglŷn â'r newidiadau neu'r tueddiadau newydd yn y cwricwlwm, gyda rhai yn credu bod gosod mwy o ffocws ar sgiliau wedi bod ar draul gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd sgiliau a gwybodaeth yn cael eu cyfuno yn y cwricwlwm newydd, gyda'r naill yn cyfoethogi'r llall, a chredid bod hynny'n berthnasol hefyd yng nghyd-destun llen ac iaith.
- Y bwriedid cyfrannu at ymgynghoriad Cymwysterau Cymru, naill ai fel awdurdod lleol, neu ar y cyd ar draws y 6 awdurdod yn rhanbarthol.
- Bod anhawster recriwtio yn broblem genedlaethol, ac nad oedd wedi'i gyfyngu i'r maes addysg yn unig. O ran prinder cymorthyddion, roedd yr ysgolion yn aml yn rhwydo yn yr un pwll am yr un bobl gyda'r un set o sgiliau â'r sector plant ac oedolion a'r sector gofal. Roedd angen ystyried beth y gellid ei wneud i ddenu mwy o bobl i mewn i'r proffesiwn, a'u cadw ar

ôl eu denu. O siarad gyda phobl, roedd yn ymddangos nad y gyfradd gyflog oedd bob tro yn gyfrifol am hynny, ond y nifer oriau a gynigir, ac roedd angen i'r Cyngor fod yn fwy rhagweithiol yn y maes yma, gan feddwl y tu allan i'r bocs, ac efallai cyfuno swyddi ar draws sectorau fyddai'n creu swydd lawn amser gwerth ei chael sy'n atyniadol i bobl, ac yn fodd o'u cadw yn y proffesiwn. Nodwyd ymhellach na chredid ein bod yn llawn sylweddoli effaith y 2 flynedd ddiwethaf ar y proffesiwn, a bod y pwysau yn sgil Cofid wedi bod yn fwy dirdynol nag oeddem wedi sylweddoli. Gwelwyd llawer o drosiant staff hefyd, gydag 13 allan o'r 54 ysgol uwchradd ar draws y rhanbarth yn croesawu pennaeth newydd ym mis Medi eleni, a sgil effaith hynny yn rhaedru i lawr drwy'r gyfundrefn. Nodwyd bod yna heriau ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg a'i bod yn bwysig gallu denu pobl sy'n hyfedr ddwyieithog, ac yn gallu cefnogi disgyblion yn y ddwy iaith. Hefyd, o ran y sector arbennig, roeddem yn falch iawn yng Ngwynedd o fod yn gallu datgan sefyllfa lle mae ein darpariaeth addysg arbennig ar gael i'n plant i gyd ar draws y continwwm drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly roedd yn bwysicach byth ein bod yn gallu denu pobl sy'n siaradwyr Cymraeg naturiol i gefnogi'r holl sectorau.
- Y byddai rhai o'r ysgolion uwchradd a benderfynodd ohirio cyflwyno'r cwricwlwm newydd tan y flwyddyn nesaf wedi bod mewn sefyllfa i'w gyflwyno fis Medi eleni, ond bu iddynt wneud penderfyniad strategol a doeth i ddefnyddio'r flwyddyn ychwanegol i ddysgu mwy am y cwricwlwm.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

## 7. ADRODDIAD GWEITHGOR ADOLYGU FFORDD GWYNEDD

Croesawyd y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Ymgynghorydd Ffordd Gwynedd i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol yn cyflwyno casgliadau Gweithgor Adolygu Ffordd Gwynedd ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd i holiadur a gylchredwyd i'r penaethiaid er mwyn:-

- cael trosolwg o sut mae egwyddorion Ffordd Gwynedd yn gwreiddio o fewn yr adrannau; a
- galluogi datblygu cynllun Ffordd Gwynedd fydd yn sicrhau'r gefnogaeth briodol ar gyfer y tair blynedd i ddod.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Diolchwyd i'r Timau Tacluso newydd am eu gwaith clodwiw.
- Nodwyd y dymunid i Ffordd Gwynedd weithio, ond na ellid rhannu brwdfrydedd y swyddogion ynglŷn â sut mae pethau'n mynd ar hyn o bryd.
- Nodwyd bod deall gwir anghenion y cwsmer yn ganolog i'r adroddiad, ond os nad oedd Ffordd Gwynedd yn ymwneud â hynny, nid oedd pwrpas iddo.
- Awgrymwyd bod yr adroddiad yn rhy gyffredinol, gwlanog ac amwys, e.e. cyfeirir droeon at '*gryn gynnydd'*, '*lle i wella'*, ayb, ond ni cheir diffiniad o hynny. Yn yr un modd, cyfeirir at e.e. '*rai adrannau / timau'*, ac awgrymwyd y dylid enwi'r adrannau sy'n llwyddo neu'n tangyflawni, yn fewnol o fewn y Cyngor. Hefyd roedd yr adroddiad yn nodi bod timau yn gweithio'n arloesol, ond byddai'n fuddiol gwybod pa dimau oedd yn gwneud hynny, a beth oedd yr ymarfer da.
- Er derbyn bod yna lawer o ffordd i fynd, awgrymwyd bod Ffordd Gwynedd, fel delfryd, yn rhywbeth i anelu ato, a llongyfarchwyd y weledigaeth.
- Nodwyd bod diffyg ymateb gan rai staff/adrannau i ymholiadau gan aelodau etholedig ac aelodau o'r cyhoedd yn broblem fawr, a bod angen blaenoriaethu hyn yn y tymor byr, Ffordd Gwynedd neu beidio, gan enwi a chodi cywilydd ar y rhai sy'n tramgwyddo.
- Pwysleisiwyd, os cael Ffordd Gwynedd i weithio, bod angen i bawb brynu i mewn i'r diwylliant, a mynegwyd siomedigaeth na lwyddwyd i ddod â'r gweithlu ymlaen gyda hyn, yn enwedig ar yr ochr Priffyrdd.

- Nodwyd y dylid rhannu egwyddorion Ffordd Gwynedd gyda chwmnïau allanol sy'n cyflawni contractau i'r Cyngor.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol:

- Ei fod yn siomedig iawn o glywed rhai o'r sylwadau, ond yn llawn dderbyn bod yr aelodau yn awyddus i gael mwy o fanylion, ac yn fwy na bodlon rhannu'r wybodaeth. Roedd hefyd yn derbyn y pwynt ynglŷn ag amlygu lle mae angen canolbwyntio ymdrechion.
- Bod y Prif Weithredwr ac yntau yn cydweithio ar ddarn o waith ynglŷn â diffyg ymateb prydlon i ymholiadau gan rai gwasanaethau, a bod yna gamau eisoes wedi'u cymryd, gyda'r sefyllfa bellach wedi gwella mewn nifer o wasanaethau lle bu trafferthion yn y gorffennol. Gofynnodd i'r aelodau gysylltu os oedd ganddynt unrhyw enghreifftiau o ddiffyg ymateb. Mewn ymateb i sylw pellach ynglŷn â'r mater hwn, nododd y Cyfarwyddwr ei fod yn amau bod y dystiolaeth yn awgrymu bod yna gyswllt rhwng diffyg ymateb i ymholiadau a diffyg ymroddiad i egwyddorion Ffordd Gwynedd. Mewn ymateb i gwestiwn pellach ynglŷn â'r angen i fonitro perfformiad yr adrannau, eglurodd y Cyfarwyddwr fod disgwyliad bod aelodau a'r cyhoedd yn derbyn cydnabyddiaeth o unrhyw ymholiad o fewn 7 diwrnod ar yr hwyraf. Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr rannu'r ddogfen honno gyda'r aelodau.
- O ran cael pawb i brynu i mewn i Ffordd Gwynedd, nododd y Cyfarwyddwr nad oedd y Cyngor wedi gweld y datblygiad y byddai wedi dymuno ei weld ar draws yr adrannau. Fodd bynnag, roedd y cysyniad wedi gwreiddio mewn rhai gwasanaethau, gyda llawer o hynny yn sgil yr arweiniad sy'n cael ei roi gan benaethiaid a rheolwyr. Pwysleisiodd fod angen sicrhau'r ymrwymiad i wreiddio'r meddylfryd a'r diwylliant, ac roedd angen buddsoddi amser yn yr argymhellion gweithredu er mwyn adnabod y camau gwag sy'n bodoli o fewn rhai systemau a sicrhau buddiant tymor hir.
- Bod y cysyniad oedd wedi'i wreiddio yn nyddiau cynnar Ffordd Gwynedd yn ystyried unrhyw adolygiad o'r system neu wasanaeth fel rhywbeth oedd yn edrych ar y gwasanaeth cyfan. Fodd bynnag, er bod lle i adolygiadau adrannol o hyd, gwelwyd symudiad bellach tuag at wneud mwy a mwy o adolygiadau llai dwys, sy'n rhoi sylw i systemau unigol ar y tro.
- Bod rôl y 2 Ymgynghorydd Ffordd Gwynedd wedi bod yn allweddol wrth gyflwyno'r technegau newydd i reolwyr o ran adolygu gwasanaethau, rhoi sylw i lif gwaith a darparu cyngor ar sut i ddelio â rhwystrau. Wrth i amser fynd yn ei flaen, ac wrth i Ffordd Gwynedd wreiddio ymhellach, disgwylid y byddai hyn oll yn dod yn rhan naturiol o waith y rheolwyr.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

## 8. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2022-23

Cyflwynwyd – blaenraglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2022-23 i'w mabwysiadu.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r flaenraglen ar gyfer 2022-23.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 2.00 y.h.

_______________________________

**CADEIRYDD**